Polisi Disgyblu Athrofa Padarn Sant ar gyfer Dysgwyr Achlysurol

ATHROFA PADARN SANT
ST PADARN'S INSTITUTE

Tabl Rheoli Dogfennau

Teitl y Ddogfen:	**Polisi Disgyblu Athrofa ar gyfer y rhai sy'n cymryd rhan mewn dysgu a digwyddiadau achlysurol**
Awdur(on) (enw, teitl swydd a sefydliad):	Kathryn Delderfield, Cyfarwyddwr Gweithrediadau, Athrofa Padarn Sant
Rhif y Fersiwn:	1
Statws y Ddogfen:	Cymeradwywyd
Dyddiad Cymeradwyo:	25 Ebrill 2022
Cymeradwywyd gan:	Bwrdd Gweithredol Athrofa Padarn Sant
Dyddiad Gweithredu:	
Dyddiad yr Adolygiad Nesaf:	Mehefin 2025
Fersiwn a Ddisodlwyd:	
Dogfennau Cysylltiedig:	Polisi Disgyblu Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru Cod Ymddygiad Athrofa Padarn Sant Polisi Aflonyddu Athrofa Padarn Sant Polisi TG Athrofa Padarn Sant Polisi Gallu i Astudio Athrofa Padarn Sant Polisi Atal Athrofa Padarn Sant Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Athrofa Padarn Sant Polisi Diogelu Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru

Hanes y Ddogfen

Fersiwn	Dyddiad	Awdur	Nodiadau ar y diwygiadau

Polisi Disgyblu i Ddysgwyr Athrofa Padarn Sant

1. Cynnwys y Polisi

1. Cynnwys y Polisi
2. Cyflwyniad
3. Cwmpas
4. Diffiniadau
5. Y broses
6. Apelio
7. Addasiadau Rhesymol
8. Cyfrinachedd

2. Cyflwyniad

Mae'r polisi hwn yn cwmpasu gweithdrefnau Disgyblu Athrofa Padarn Sant sy'n ymwneud â chamymddwyn gan unrhyw un sy'n ymwneud â dysgu neu ddigwyddiadau eraill Athrofa Padarn Sant, ac na chânt eu cwmpasu gan Bolisi Disgyblu Dysgwyr Arferol Athrofa Padarn Sant. Cynhwysir camymddwyn gan staff ym Mholisi Disgyblu Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru.

3. Cwmpas

Mae'r polisi hwn yn cwmpasu honiadau o gamymddwyn anacademaidd gan ddysgwr a ddigwyddodd ar neu oddi ar safle Athrofa Padarn Sant (gan gynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol) ble mae'r ymddygiad hwnnw wedi effeithio ar Athrofa Padarn Sant ei hun, ar ddysgwr arall, ar aelod o staff, neu ar unrhyw un sy'n ymweld ag Athrofa Padarn Sant neu'n cymryd rhan mewn unrhyw un o'i gweithgaerddau. Gall mynd yn groes i bolisïau Athrofa Padarn Sant neu'r rhai sy'n gysylltiedig â pholisïau yr Eglwys yng Nghymru arwain at gamau disgyblu.

Gall Athrofa Padarn Sant gymryd camau disgyblu yn erbyn dysgwr o'i wirfodd os na fydd y sawl sy'n ein hysbysu am y digwyddiad am wneud cwyn ffurfiol.

Wrth gymhwyso'r polisi hwn, rhoddir ystyriaeth ddyledus i'r rhwymedigaethau i gadw a gwerthfawrogi rhyddid i lefaru sy'n ymwneud â phob gweithgaredd dysgu yn Athrofa Padarn Sant, oherwydd ei natur fel sefydliad addysgol, ac fel y mynegwyd gan David Isaac, Cadeirydd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol:

'The free expression and exchange of different views without persecution or interference goes straight to the heart of our democracy and is a vital part of higher education. Holding open, challenging debates rather than silencing the views of those we don't agree with helps to build tolerance and address prejudice and discrimination.

'Our guidance makes clear that freedom of speech in higher education should be upheld at every opportunity and should only be limited where there are genuine safety concerns or it constitutes unlawful behaviour.'[1]

4. Diffiniadau

Mae Cod Ymddygiad Athrofa Padarn Sant yn amlinellu'r safonau ymddygiad disgwyliedig. Ystyrir unrhyw ymddygiad sy'n torri'r Cod Ymddygiad hwn fel un sy'n torri rheolau disgyblaeth.

Mae torri rheolau disgyblaeth yn debygol o syrthio i un o'r categorïau canlynol:

- Camau sy'n achosi trallod neu niwed gwirioneddol neu bosibl i eraill
- Camau sy'n achosi difrod gwirioneddol neu bosibl i eiddo pobl eraill
- Camau a allai atal neu amharu ar swyddogaethau arferol Athrofa Padarn Sant
- Camau a allai achosi niwed i enw da Athrofa Padarn Sant o ganlyniad i'r cyflawnwr honedig yn camymddwyn
- Camau sy'n rhwystro neu'n ymyrryd â'r broses o gyflawni gwaith / astudio mewn unrhyw ran o Gymuned Athrofa Padarn Sant, neu effaith hynny ar ei weithrediadau arferol

Mae enghreifftiau o gamymddwyn anacademaidd yn cynnwys:

- Ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Ymddygiad amhriodol, camdriniol neu fygythiol gan gynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol
- Peryglu diogelwch neu lesiant eraill
- Camymddwyn rhywiol

[1] https://www.equalityhumanrights.com/en/our-work/news/free-speech-be-protected-university. Gweler https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/freedom-of-expression-guide-for-higher-education-providers-and-students-unions-england-and-wales.pdf i gael gwybod mwy

- Trais, aflonyddu a throseddau casineb
- Ymddygiad sy'n debygol o ddwyn anfri ar Athrofa Padarn Sant
- Camddefnyddio mynediad i'r rhyngrwyd
- Ymddwyn mewn ffordd sy'n tarfu ar eraill ar safle Athrofa Padarn Sant, neu mewn unrhyw un o'i weithgareddau
- Difrod i eiddo Athrofa Padarn Sant neu gamddefnyddio ei gyfleusterau
- Achosi pryder i iechyd neu ddiogelwch
- Twyll
- Ymddwyn mewn ffordd a allai hefyd fod yn drosedd

5. Y Broses

5.1 Camau sy'n tarfu ar ddigwyddiad yn uniongyrchol

Os bydd ymddygiad unigolyn yn tarfu ar ddigwyddiad i'r graddau ei fod yn gwneud pethau'n anodd i eraill gymryd rhan yn y digwyddiad neu ei fod yn amharchu person / pobl sy'n siarad yn y digwyddiad, bydd Arweinydd y Rhaglen (neu'r tiwtor cyfrifol, yn absenoldeb Arweinydd y Rhaglen) yn ceisio siarad â'r unigolyn hwnnw i ddechrau ac yn gofyn yn gwrtais iddo ymddwyn yn well. Os nad yw'n bosibl siarad â'r unigolyn, neu os nad yw'r unigolyn yn ymateb neu os yw ei ymddygiad yn eithafol, efallai y gofynnir iddo adael. Efallai y caiff ei wahardd o'r cyfarfod os yw'r cyfarfod yn un electronig.

5.2 Cwynion am ymddygiad unigolyn

Os derbynnir cwyn am ymddygiad unigolyn yn nigwyddiad Athrofa Padarn Sant, yna bydd Arweinydd y Rhaglen yn ymchwilio i'r gwyn drwy siarad â'r unigolyn dan sylw. Os caiff y gwyn ei chadarnhau gall Arweinydd y Rhaglen:

- Drafod torri rheolau disgyblaeth â'r unigolyn dan sylw, a gofyn iddo beidio ag ymddwyn mewn ffordd o'r fath mewn unrhyw ddigwyddiad yn y dyfodol.
- Mewn achosion difrifol neu niferus o dorri rheolau disgyblaeth efallai y caiff yr unigolyn ei wahardd rhag mynychu digwyddiadau Athrofa Padarn Sant yn y dyfodol, naill ai am gyfnod, neu'n barhaol.

Dylid gwneud unrhyw gwynion yn erbyn y staff gan ddefnyddio polisi cwynion Athrofa Padarn Sant.

6. Apelio

Os na fydd unigolyn sydd wedi bod yn destun camau disgyblu o dan delerau'r polisi hwn yn fodlon ar y ffordd y cafodd ei drin, gall apelio i'r Pennaeth o fewn 10 diwrnod i unrhyw gamau disgyblu gael eu cymryd.

7. Addasiadau rhesymol

Gwneir addasiadau rhesymol, fel y bo'n briodol, i'r broses ddisgyblu ar gyfer pob person ag anabledd neu broblem iechyd. Gall anabledd unigolyn fod yn ffactor a allai liniaru'r drosedd honedig.

8. Cyfrinachedd

Dylai pawb sy'n rhan o'r gweithdrefnau disgyblu fod yn ymwybodol o'r angen i gadw cyfrinachedd. Bydd torri cyfrinachedd gan staff, dysgwyr neu unrhyw un sy'n cyfrannu at Athrofa Padarn Sant yn cael ei drin fel achos difrifol. Rhaid cadw'r holl gofnodion yn unol â Pholisi Diogelu Data Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru.